

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Practis Deintyddol Treganna  
Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr  
2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Treganna fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Ddeintyddol Treganna yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o

nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a deintydd cyswllt ar 18 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut yr ymatebodd y gwasanaeth i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Y polisiau amgylcheddol ac asesiadau risg diweddaraf
- Aseiad risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19. Fe wnaethom hefyd holi'r darparwr cofrestredig ynglŷn â'r newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn galluogi cleifion i gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19 ac i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol a'r ystafelloedd triniaeth.

Fe'n hysbyswyd fod yr amgylchedd yn y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau'r pandemig COVID-19 er mwyn gwella gwaith rheoli heintiau. Er mwyn lleihau nifer y cleifion yn y practis, gweithredwyd polisi drws caeedig, sy'n golygu mai dim ond cleifion ag apwyntiadau fyddai'n gallu mynd i mewn i'r practis. Rhoddwyd gwybod i'r holl gleifion y byddai'n rhaid iddynt fynychu'u hapwyntiad ar eu pen eu hunain oni bai bod gofyn am gymorth ychwanegol gan ofalwr. Gwnaeth y practis leihau nifer y cleifion a oedd yn cael mynediad i'r practis ar unrhyw adeg i ddau glaf. Cafodd hyn ei gynorthwyo gan ystafell aros ychwanegol a oedd yn galluogi'r practis i gynnal amgylchedd diogel a dilyn yr holl ofynion cadw pellter cymdeithasol a oedd mewn grym. Wrth i'r cleifion fynychu'r practis, roedd yn rhaid iddynt gnocio ar y drws ac aros i gael eu hebrwng i'r practis pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Dywedwyd wrthym hefyd fod sgriniau ac arwyddion clir wedi'u gosod yn y dderbynfa i bob claf sy'n rhoi manylion am gadw pellter cymdeithasol ac yn hysbysu'r cleifion bod yn rhaid gwisgo masgiau wyneb drwy'r amser.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i hysbysu'r cleifion am y gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Cawsom wybod y cynhelir aseiad claf ac aseiad risg COVID-19 dros y ffôn cyn i'r claf fynychu'r practis. Mae'r asesiadau risg hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch iechyd corfforol y claf yn y gorffennol a'r presennol, ynghyd â sgrinio COVID-19. Yn ystod y galwad ffôn, mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth am y disgwyliadau wrth iddynt gyrraedd y practis.

Cawsom wybod hefyd, wrth gyrraedd y practis, y gofynnwyd i'r cleifion a ydynt yn rhoi

---

cysyniad i gymryd eu tymheredd a'i gofnodi yn eu hanes meddygol ac wedyn gofynnwyd iddynt ddefnyddio un o'r nifer o orsafoedd diheintio dwylo a oedd ar gael drwy'r practis. Rhoddodd y staff wybod i'r cleifion bod gofyn iddynt wisgo masgiau wyneb wrth symud o gwmpas y practis, oni bai eu bod wedi'u hesemptio'n feddygol, hyd nes y bydd y deintydd yn gofyn iddynt dynnu'r masg.

Dywedwyd wrthym fod pedair deintyddfa yn y practis, ac mae pob un o'r deintyddfeydd hyn â'r cyfarpar priodol ar gyfer cyflawni gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau<sup>1</sup>. Mae'r practis wedi gosod system awyru ac echdynnu aer newydd ym mhob deintyddfa er mwyn cefnogi'r broses o gael gwared ar aer wedi'i halogi, ac mae wedi ailasod pob ffenestr er mwyn cael digon o aer yn llifo trwy'r deintyddfeydd. Mae'r holl apwyntiadau wedi'u trefnu i alluogi cyfnod segur<sup>2</sup> digonol ac i alluogi digon o amser i ddiheintio'r ardal rhwng y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi'i rannu dros ddau lawr a bod y cleifion sydd â symudedd cyfyngedig yn gallu defnyddio'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod. Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth amrywiol a bod nifer o staff amlieithog. Cawsom ein hysbysu nad oes unrhyw staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y practis er gwaethaf y nifer o staff amlieithog. Mae gan y practis fynediad o bell at wasanaeth cyfieithu y gallant ei ddefnyddio os yw unrhyw glaf yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid oedd unrhyw glaf wedi gofyn i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw ar hyn o bryd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisi glanhau
- Polisi COVID-19
- Cofnodion yr awtoclaf
- Cofnodion uwchsonig
- Cofnodion gwiriadau diwedd y dydd o'r ddeintyddfa
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa.

---

<sup>1</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau.

<sup>2</sup> Amser segur yw'r amser yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.

---

## Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom ddogfennau amrywiol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Gwelsom ddogfennau gweithdrefnol mewn perthynas â dadheintio offerynnau ac offer deintyddol i bob deintyddfa yn y practis. Gwelsom dystiolaeth hefyd o wiriadau dyddiol ac wythnosol o'r awtoclaf ym mhob deintyddfa, gwiriadau dyddiol o'r glanhäwyr uwchsonig a gwiriadau atal a rheoli heintiau dyddiol ynghyd â gwiriadau amgylcheddol ar gyfer pob deintyddfa.

Cawsom yr archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 diweddaraf, ynghyd â chymau a nodwyd ar gyfer meysydd i'w gwella. Cawsom ein hysbysu bod yr holl gamau a nodwyd wedi cael sylw a chawsom wybod y prynwyd cadeiriau newydd i bob deintyddfa yn sgil yr archwiliad er mwyn cydymffurfio â safonau atal a rheoli heintiau.

Cawsom ein hysbysu y cynhelir cyfarfodydd staff dyddiol i drafod unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r polisiau neu'r gweithdrefnau ynghyd ag arweiniad newydd sydd wedi'i ryddhau gan gyrrff allanol megis Prif Swyddog Deintyddol Cymru neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn ogystal â chyfarfodydd dyddiol, mae'r darparwr cofrestredig yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, lle y cwmpeisir atal a rheoli heintiau fel pwnc safonol.

Cawsom ein hysbysu gan y darparwr cofrestredig bod polisiau a gweithdrefnau ar waith i leihau'r risg heintio ac amddiffyn y cleifion wrth gynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau. Cyn i'r cleifion gyrraedd y practis ar gyfer unrhyw driniaethau sy'n weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau, cynhelir galwad ffôn lle yr ymgwymerir ag asesiad risg i nodi pa offer sydd ei angen ac i alluogi i'r practis baratoi ymlaen llaw.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a bod gorsafoddd diheintio dwylo trwy gydol y practis i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Mae'r holl leoliadau diheintio dwylo yn cael eu monitro yn rheolaidd fel rhan o'r amserlen lanhau a'r gwiriadau dyddiol a gynhelir gan y staff yn y practis.

Mae'r holl staff wedi derbyn prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3<sup>3</sup>, ac yn gwisgo cyfarpar diogelu personol pellach megis menig, ffedogau a feisorau wrth drin cleifion. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol gwell yn gywir ac mae'r holl staff wedi derbyn asesiad risg i asesu'u risg o gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19.

Cawsom wybod bod gan y practis ddau fan gwisgo a diosg<sup>4</sup> dros ddau lawr yn y lleoliad, gan alluogi i'r staff sy'n gweithio ar draws y ddau lawr fod â manau penodol i waredu a gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ddiogel. Mae hyn wedi lleihau'r risg o groes-heintio ar draws y ddau lawr. Mae gan y ddwy ardal arwyddion sy'n atgoffa'r staff am eu dyletswydd i wisgo cyfarpar diogelu personol uwch ac arwyddion sy'n hyrwyddo dulliau diogel ar gyfer gwisgo a

---

<sup>3</sup> Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

<sup>4</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol

---

diosg cyfarpar diogelu personol. Cawsom wybod hefyd fod y practis wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i'r holl nyrsys deintyddol i'w galluogi i gymryd stoc o'r cyfarpar diogelu personol ar gyfer y practis. Mae hyn yn sicrhau bod stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol drwy'r amser yn y practis.

Dyweddodd y darparwr cofrestredig wrthym fod yr holl gleifion yn derbyn asesiad yn ystod y camau gwahanol o driniaeth i sicrhau bod y claf a'r staff yn parhau i fod yn ddiogel drwy'r amser. Cawsom wybod hefyd y gallai fod achlysuron lle bod gofyn am driniaeth ddeintyddol ar unwaith ar gyfer claf a allai fod yn arddangos symptomau COVID-19 neu fod â diagnosis wedi'i gadarnhau. Yn yr achosion hyn, cawsom wybod y cynhelir gwaith sgrinio uwch i ystyried a oes angen ar y driniaeth ar frys. Os nad yw'r driniaeth yn un frys, byddai'r apwyntiad yn cael ei ohirio i ddyddiad arall. Os oedd y driniaeth yn un frys, rhoddwyd apwyntiad i'r claf ar ddiwedd y diwrnod gwaith i sicrhau y gellid dadheintio'r ddeintyddfa a ddefnyddiwyd yn llwyr cyn ei defnydd nesaf.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Datganiad o Ddiben<sup>5</sup>
- Taflen Gwybodaeth i Gleifion<sup>6</sup>
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Polisi parhad busnes ac adfer trychineb
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Polisi COVID-19
- Archwiliad cardiau cofnod
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

<sup>5</sup> Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Hefyd, dylai restru'r mathau o driniaethau, cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill sy'n cael eu darparu yn neu at ddibenion y practis deintyddol preifat, gan gynnwys manylion yr anghenion amrywiol y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu cyflawni.

<sup>6</sup> Cyflwynir taflen gwybodaeth i gleifion i'r cleifion ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodlen 2 y rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch casglu barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

---

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig, ond mae ond wedi dechrau gweld cleifion nad ydynt yn rhai brys ers i'r darparwr cofrestredig cyfredol brynu perchenogaeth y practis ym mis Ionawr 2021. Ers hynny, mae'r practis wedi bod yn darparu triniaethau brys a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys i'r cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd, os bydd yn rhaid i'r practis gau, am gyfnod byr o amser, bod cytundeb mewn grym gyda phractis arall i drin pob achos brys.

Gwnaethom adolygu'r daflen gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben, a darparodd y ddwy ddogfen hyn yr wybodaeth berthnasol am yr holl wasanaethau a gynigit a strwythur y practis. Gwnaethom hefyd weld nifer o bolisiâu gwahanol; roedd yr holl bolisiâu'n gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol ar gyfer eu pwrpas. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl bolisiâu yn cael eu gwirio a'u hadolygu lle y bo angen a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu trafod gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd staff.

Gwelsom bolisi parhad busnes ac adfer o drychineb a oedd yn amlinellu llwybrau clir ac yn darparu manylion am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau posibl. Roedd y ddogfen ar gael i'r holl staff ei defnyddio pe bai argyfwng yn codi.

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn defnyddio staff asiantaeth yn achlysurol. Cysylltir â'r holl staff asiantaeth a ddefnyddir yn y practis cyn iddynt fynychu'r practis. Nod hwn yw sicrhau y gellir ymgymryd â'r asesiadau risg perthnasol cyn iddynt fynychu'r practis. Yn ystod y pandemig, gofynnwyd i bob aelod o staff asiantaeth sy'n mynychu'r lleoliad ddilyn canllawiau llym a osodwyd gan y darparwr cofrestredig er mwyn cadw'r holl gleifion a'r staff yn ddiogel. Wrth fynychu'r practis, gofynnir am brawf llif unffordd a rhoddir arweiniad pellach ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol gwell.

Eglurodd y darparwr cofrestredig y broses ar gyfer gwirio offer a ddefnyddir mewn achos brys a rheoli meddyginiaeth. Cynhelir gwiriadau wythnosol ar yr offer a ddefnyddir mewn achosion brys, gyda gwiriadau dyddiol ar lefelau ocsigen. Cynhelir gwiriadau meddyginiaeth bob dydd yn y practis gan y ddau ddeintydd, gyda'r broses wedi'i hesbonio'n glir mewn modd hyderus.

Darparwyd copi o'r archwiliad cardiau cofnod diweddaraf ynghyd â'r archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) diweddaraf. Roedd yr archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dangos cywirdeb 100% heb fod angen ail-wneud unrhyw weithdrefnau. Gwnaethom hefyd weld y cofnod hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Dywedodd y darparwr cofrestredig wrthym fod anawsterau wedi bod wrth drefnu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd hyn wedi arwain at y cofnod hyfforddiant yn dangos nad oedd yr holl staff yn cydymffurfio â hyfforddiant argyfyngau meddygol. Rhoddodd y darparwr cofrestredig dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein yn y pwnc hwn a rhoddodd dystiolaeth hefyd bod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i geisio ac mae'r darparwr cofrestredig yn aros am ddyddiad.



---

Eglurodd y darparwr cofrestredig y broses o adrodd am ddigwyddiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac asiantaethau rheoleiddiol eraill. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i gyrff rheoleiddiol a bod trosolwg terfynol o'r broses yn cael ei gynnal gan y darparwr cofrestredig. Dywedwyd wrthym hefyd fod manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chyrff eraill yn cael eu cadw gyda staff y dderbynfa a bod y staff yn cael eu hannog i gysylltu lle y bo angen. Mae unrhyw newidiadau i ganllawiau'n cael eu trafod gyda'r staff cyn i ddiwrnod y practis ddechrau ac yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, adolygodd AGIC y cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r darparwr cofrestredig wedi nodi'n flaenorol ei bod wedi bod yn anodd cael hyfforddiant wyneb yn wyneb trwy'r pandemig, ac roedd hefyd nifer o fodiwlau hyfforddiant gorfodol eraill nad oeddent yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arall a nodwyd er mwyn ymgymryd â'u rolau.

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, adolygodd AGIC yr archwiliad cardiau cofnod a gynhaliwyd gan y practis. Roedd hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nododd nad oedd y practis wedi darparu cyngor ar roi'r gorau i smygu ar bob achlysur posibl.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyngor hybu iechyd / addysg cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i bob claf a'i ddogfennu'n briodol.

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, adolygodd AGIC nifer o bolisiau a gweithdrefnau. Er bod y rhan fwyaf o bolisiau wedi'u dyddio, roedd nifer o bolisiau nad oedd dyddiad arnynt. Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd dyddiad adolygu.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau wedi'u dyddio ac yn cynnwys dyddiad adolygu clir.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Gofal Deintyddol Treganna

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr  
2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd ac mae angen cyflwyno'r fersiwn terfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella   | Safon / Rheoliad  | Camau gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol | Amserlen                   |
|-----------|---|---|---|------------------|----------------------------|
| 1         | Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arall y nodir er mwyn ymgymryd â'u rolau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a) | Mae lleoedd wedi'u cadw ar gyfer pob aelod o'r staff ar gwrs hyfforddiant ar gyfer Cam dau Adfywio Cardio-Pwlmonaidd, Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig ac Argyfyngau Meddygol.<br><br>Dylai'r holl staff sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gofrestru gyda darparwr ag enw da ar gyfer hyfforddiant gorfodol a chael y wybodaeth ddiweddaraf am | Ali El Maadarani | 15.2.2022<br><br>28.2.2022 |

|   |   |   |  |                  |                              |
|---|---|---|--|------------------|------------------------------|
|   |   |   | hyfforddiant gorfodol.   |                  |                              |
| 2 | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyngor hybu iechyd / addysg cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i bob claf a'i ddogfennu'n briodol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 9(a)   | Bydd yn sicrhau bod yr holl hysbysebu / cyngor addysg a ddarperir yn cael eu dogfennu ar nodiadau clinigol y claf. Bydd yn archwilio hwn bob blwyddyn. | Ali El Maadarani | 02.02.2022<br><br>02.02.2023 |
| 3 | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau wedi'u dyddio ac yn cynnwys dyddiad adolygu clir.              | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (6)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.5 cadw cofnodion | Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu gyda dyddiad adolygu clir.   | Ali El Maadarani | 28.02.2022                   |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Ali El  
Maadarani

Dyddiad:  
02.02.2022